


RYDYM YN RECRIWTIO

UCHAFBWYNTIAU Y SWYDD





Hyfforddwr Nofio

Gwybodaeth Hanfodol

Cyflog : £12.24 - £13.41 yr awr

Oriau : Oriau amrywiol a chontractau ar gael

Lleoliad : Pob safle

Am y Swydd

Mae gennym amrywiaeth o gontractau ar gael, felly p'un a ydych yn chwilio am oriau amser llawn, rhan amser neu achlysurol ad hoc, mae gennym ni rhywbeth i chi. Rydym yn recriwtio'n rheolaidd felly os oes gennych ddiddordeb mewn gweithio fel Hyfforddwr Nofio yna anfonwch eich CV atom fel y gallwn eich ystyried ar gyfer y swydd nesaf a fydd ar gael.

Yn nodweddiadol, mae ein Dosbarthiadau Nofio yn rhedeg rhwng 3:30 a 6:30pm yn ystod yr wythnos. Yn y rôl hon, rydym yn chwilio am bobl sy'n gallu addysgu dosbarthiadau rhwng yr amseroedd hyn bob wythnos. Fodd bynnag, gallwch ddewis pa ddiwrnodau sy'n gweithio orau i chi - mae gennym ddosbarthiadau bob dydd o'r wythnos mewn gwahanol safleoedd.

Fel Hyfforddwr Nofio, byddwch yn helpu ein haelodau i ddatblygu sgil gydol oes werthfawr - a byddwch yn cael profiad gwych wrth wneud hynny! Byddwch yn creu dosbarthiadau hwyliog a diddorol, gan helpu pawb i symud ymlaen trwy'r lefelau dosbarth i ddod yn nofwyr cryf a hyderus.

Byddwch yn gallu addasu eich sesiynau i wneud i bawb deimlo eu bod yn cael eu cynnwys, p'un a ydynt yn ymuno am y tro cyntaf, neu'n rheolaidd i'ch dosbarthiadau.

Rydym yn ymfalchïo yn ein cyfleusterau a'r amgylchedd yr ydym yn ei gynnig i'n cwsmeriaid, felly byddem yn disgwyl i chi ymfalchïo yn y safle, gan sicrhau ei fod yn lân, yn daclus ac yn ddiogel i bawb ei ddefnyddio bob amser.

Mae'r dogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg / This document is also available in English



Hyfforddwr Nofio

Amdanoch Chi

Yn y rôl hon, bydd angen i chi feddu ar gymhwyster Cymdeithas Athrawon Nofio (STA). Os nad ydych eisoed wedi cymhwyso, rydym yn cynnal cyrsiau STA trwy gydol y flwyddyn am gyfraddau gostyngol i helpu pobl i gymryd eu cam cyntaf i yrfa mewn hamdden.

Edrychwch ar ein tudalen Dysgu Gyda Ni ar ein gwefan i ddod o hyd i'r cwrs nesaf sydd ar gael i archebu lle. Bydd ein tîm cyfeillgar yn eich helpu bob cam o'r ffordd pan fyddwch chi'n hyfforddi gyda ni.

<https://denbighshireleisure.co.uk/cy/learn-with-us-wel/>

Byddwch yn unigolyn hyderus a chyfeillgar, gyda sgiliau pobl rhagorol a sylw gwych i fanylion.

Mae ein cwsmeriaid yn hynod bwysig i ni, felly mae arnom angen rhywun sy'n gallu tawelu pobl, ac sydd ag awydd i wneud yn siŵr bod pawb yn cael profiad gwych bob amser.

Mae'n bwysig iawn bod pawb yn ddiogel bob amser, felly bydd angen i chi fod yn hyderus wrth gymryd camau i atal unrhyw ymddygiad a allai fod yn risg i eraill, mewn modd cyfeillgar ond cadarn.

Rydym wrth ein bodd yn tyfu ein staff, felly mae awydd i ddysgu a datblygu yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

Os ydych chi'n berson cyfeillgar, brwdfrydig, gydag awydd gwirioneddol i helpu eraill, ac yn dymuno gweithio mewn Cwmni cyflym a hynod lwyddiannus, yna gallai hwn fod yn ffit perffaith i chi.



Hyfforddwr Nofio

Amdanom ni

Trwy fuddsoddiad parhaus dros 12 mlynedd, mae Hamdden Sir Ddinbych wedi datblygu portffolio o gyfleusterau iechyd a ffitrwydd sy'n arwain y sector. Mae 7 cyfleuster ffitrwydd premiwm ledled Sir Ddinbych yn cymharu â'r gorau yn y sector preifat, ac maent yn esiampl arbennig i weithredwyr hamdden ledled y DU.

Mae tîm Hamdden Sir Ddinbych yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydym yn un tîm, pob un yn gweithio gyda'n gilydd tuag at nod cyffredin ond yn gwerthfawrogi unigolrwydd pob unigolyn. Rydyn ni'n ymddiried, yn gofalu ac yn parchu ein gilydd, oherwydd rydyn ni'n credu bod hynny'n ein gwneud ni'n gryfach. Gyda'n gilydd rydym i gyd yn cyfrannu at wneud Hamdden Sir Ddinbych yn llwyddiannus.

- Byddwn yn sefyll yn ôl ein hegwyddorion uniondeb a gonestrwydd.
- Bydd ein staff yn ymddiried ynom bob amser i wneud yr hyn sy'n iawn fel eu cyflogwr, a'u gwneud yn falch.
- Ni fyddwn byth yn derbyn y status quo. Byddwn yn gweithio'n galetach, yn dod yn gryfach ac yn parhau i ddarparu gwasanaeth o'r ansawdd uchaf i'n cwsmeriaid.



Hyfforddwr Nofio

Buddion Staff

Mae ein gweithlu o'r pwys mwyaf i ni ac rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith. Mae gan holl weithwyr Denbighshire Leisure Ltd hawl i amrywiaeth o fudd-daliadau, gan gynnwys:

- Aelodaeth campfa staff HSDd
- Cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol
- Gwyliau blyneddol yn dechrau ar 25 diwrnod + gwyliau banc (gyda'r cyfle i ennill mwy)
- Cefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiannau gyrfa ac secondiadau
- Amrywiaeth o bolisiau teulu-gyfeillgar i gefnogi'ch cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

Gwnewch gais ar-lein heddiw neu e-bostiwch eich CV i
Pobl@hamddensirddinbych.co.uk